# Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

# CWLS2 01-05 (mins)

**Dyddiad y cyfarfod:** 26 Ionawr 2005

**Amser y cyfarfod:** 9.00am - 12.30pm

**Lleoliad y cyfarfod:** Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Rosemary Butler (Cadeirydd) | Gorllewin Casnewydd |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Lisa Francis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Denise Idris Jones | Conwy |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Laura Ann Jones | Dwyrain De Cymru |
| Alun Pugh (Gweinidog) | Gorllewin Clwyd |
| Owen John Thomas | Canol De Cymru |

## Swyddogion yn Bresennol

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Margaret Evans | Cyfarwyddwr – Y Gyfarwyddiaeth dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon |

## Eraill yn Bresennol

| Enw | Yn cynrychioli (os yn berthnasol | Eitem(au) ar yr agenda |
|---|---|---|
| Peter Tyndall | Cyngor Celfyddydau Cymru | 2 |
| Chris Ricketts | Cyngor Celfyddydau Cymru | 2 |
| Siri Wigdel | Cyngor Celfyddydau Cymru | 2 |
| Yr Athro Hamish Fyfe | Prifysgol Morgannwg | 3 |
| Emily | Prifysgol Morgannwg | 3 |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Julia Annand | Clerk Pwyllgorau |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc Pwyllgorau |
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol, Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad |

**Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datganiadau o Fuddiant**

1. Croesawyd Aelodau’r Pwyllgor ac aelodau’r cyhoedd gan y Cadeirydd.
2. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant o dan reol sefydlog rhif 4.6.

3. Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol gan y Cadeirydd

- Roedd cyfarfod ar y cyd gyda'r Pwyllgor Materion Cymreig yn parhau i fod wedi'i drefnu ar gyfer 10 Mawrth;
- Roedd trefniadau yn cael eu gwneud i'r Pwyllgor ymweld â'r Alban rhwng 22-24 Mehefin;
- Byddai'r Pwyllgor yn cyfarfod mewn lleoliadau allanol yn ystod y flwyddyn i ddod, a byddai cyfarfodydd yn cael eu trefnu yng Nghasnewydd, Merthyr ac Abertawe;
- Cadarnhaodd y Cadeirydd na fyddai'r opsiwn o gynnal cyfarfod ar 3 Chwefror yn cael ei ddefnyddio;
- Diwygiwyd yr agenda ar fyr rybudd yn sgîl trafodaethau gyda'r Gweinidog. Caiff yr eitem ynglyn â Dringo'n Uwch/Her Iechyd Cymru ei thrafod yn awr yn y cyfarfod nesaf, i'w gynnal ar 23ain Chwefror;
- Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu Cyngerdd Apêl y Tsunami yn Stadiwm y Mileniwm, lle bu'r awyrgylch yn ardderchog a mwynhawyd noson gyffrous ac ysblennydd gan bawb. Awgrymodd y Cadeirydd y dylai ysgrifennu at y trefnwyr er mwyn eu llongyfarch ar ran y Pwyllgor. Cytunwyd ar hyn.

**Camau Gweithredu**

- Gwasanaeth y Pwyllgorau i baratoi llythyr yn llongyfarch trefnwyr Cyngerdd Apêl y Tsunami a gynhaliwyd yn Stadiwm y Mileniwm.

**Eitem 2: Adolygiad o Bolisi: Dawns yng Nghymru – Trosolwg Cyffredinol**

**Papur:** CWLS2 01-05(t.1)

2.1 Croesawyd Peter Tyndall, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru a'i gydweithwyr Chris Ricketts a Siri Wigdel i'r Pwyllgor gan y Cadeirydd, a gofynnwyd iddo wneud ei gyflwyniad, y ceir copi ohono yn Papur 1. Yn ogystal cynigiodd Cyngor y Celfyddydau ymgymryd â gwaith pellach ar faterion ar ran y Pwyllgor. Byddent hefyd yn gadael i'r Pwyllgor gael rhestr o enillwyr dyfarniadau Cymru Greadigol.

2.2 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Croesawodd Cyngor y Celfyddydau y sesiwn arfaethedig ar Ddawns mewn Addysg ac, mewn ymateb i gwestiynau, dywedodd fod y Cyngor yn gweithio gydag ysgolion a oedd â chysylltiadau cryf â lleoliadau'r celfyddydau megis Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth a sefydliadau megis Rubicon. Roedd y sector Dawns Cymunedol hefyd yn gweithio gydag ysgolion, ond gallai gyflawni mewn ffyrdd gwahanol gyda mwy o fuddsoddiad. Bu datblygiad gyda phenodiad cydlynwyr Addysg Gorfforol mewn ysgolion, ond cafwyd diffyg cyfeiriad strategol. Wrth gwrs, ystyriwyd dawns yn rhan o'r cwricwlwm Addysg Gorfforol yn hytrach na Chwricwlwm y Celfyddydau mewn ysgolion yn y DU. Hoffai Cyngor y Celfyddydau gael mwy o ddeialog

gyda'r sector dawns preifat.
- Roedd y Cadeirydd wedi siarad â Chadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ynglyn â'r sesiwn ar ddawns mewn addysg, a châi cyfarfod ar y cyd ei ystyried.
- Byddai sefydliadau dawns cymunedol yn hoffi gwneud mwy o waith gyda phobl hyn, ond nid oedd ganddynt yr adnoddau i wneud hynny. Byddai'r Cyngor yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ymchwil ar anghenion dawns pobl hyn.
- Nid oedd unrhyw gynlluniau i gefnogi Cwmni Bale Cenedlaethol. Er bod Independent Ballet Wales yn ymgymryd â theithiau ar raddfa ganolig, nid oedd hyn ar lefel genedlaethol fawr.
- Holwyd a oedd y cwmnïau mwy yn cael eu hamddiffyn, yn enwedig ar ôl iddynt uno â'r Cynulliad Cenedlaethol, ar draul cwmnïau dawns cymunedol. Dywedodd Cyngor y Celfyddydau fod dawns gymunedol wedi'i nodi'n flaenoriaeth ar gyfer cyllid refeniw ac yn ogystal bod ceisiadau wedi'u gwneud am arian gan WEFO (Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru).
- Datblygwyd dau gynhyrchiad cerddorol, ond nid prosiectau dawns uchelgeisiol mawr megis Riverdance.
- Fodd bynnag, byddai arddangosfa Ddawns ym mis Mehefin a phwysleisiodd Cyngor y Celfyddydau bwysigrwydd rhoi llwyfan rhyngwladol i berfformwyr.
- O ran Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen, dywedodd Cyngor y Celfyddydau fod hon yn ddigwyddiad unigryw, a'i fod wedi cael trafodaethau gyda'r Cyngor Prydeinig ynglyn â'i chyflwyno mewn rhannau gwahanol o'r byd megis Dwyrain Ewrop.
- Roedd Cyngor y Celfyddydau wedi ymrwymo i ddatblygu strategaeth Ddawns. A derbyn adolygiad y Pwyllgor, fodd bynnag, byddai'n ymgymryd â gwaith pellach ar gyfer y Pwyllgor, er enghraifft o ran ble yr oedd angen buddsoddiad pellach, (a chyflwyno hyn maes o law) ac wedyn ystyried canfyddiadau'r Pwyllgor yn ei strategaeth ei hun.

**Camau Gweithredu**

- Cyngor y Celfyddydau i roi gwybodaeth i'r Pwyllgor ynglyn â'r ddarpariaeth o gyfleoedd dawns ar gyfer pobl hyn;
- A gwybodaeth am enillwyr Dyfarniadau Cymru Greadigol.

**Eitem 3: Cyflwyniad ar Adfywio Cymunedol**

**Papur:** CWLS2 01-05 (t. 4)

3.1 Croesawyd yr Athro Hamish Fife o Brifysgol Morgannwg gan y Cadeirydd, a gofynnwyd iddo wneud ei gyflwyniad, y ceir copi ohono yn Papur 4.

3.2 Croesawyd y cyflwyniad gan yr aelodau, a gwnaethant y sylwadau canlynol:

- Gellid cyflawni adfywio drwy gysylltiadau cymunedol drwy'r celfyddydau, ond hefyd drwy draddodiadau gwaith a menter gymdeithasol;
- Yn aml roedd yn anodd mesur canlyniadau ac roedd hyn yn achosi anawsterau wrth sicrhau arian;

- Nid oedd partneriaethau Amcan 1 yn gweithio oherwydd problemau o fewn y rhaglenni a gynigwyd;
- Roedd yn aml yn anodd esbonio gwerthoedd diwylliannol prosiectau celfyddydol;
- Ni ellid rhagweld canlyniadau prosiectau'r celfyddydau cymunedol ac ni ddylid anwybyddu hyn;
- Roedd prosiectau da yn codi parch cyfunol cymunedau a gallent ddatblygu twristiaeth ddiwylliannol;

3.3 Mewn ymateb, gwnaethpwyd y sylwadau canlynol:

Dywedodd **Yr Athro Fyfe** fod sylfaen adfywio yn y cymunedau gan fod llawer o bobl ifanc yn gweithio o fewn y prosiectau ac yn helpu i ddatblygu'r themâu. Roedd yn anodd mesur canlyniadau yn y maes hwn gan ei bod yn anodd mesur y profiadau a gafwyd gan y rhai a oedd yn gysylltiedig â llawer o'r prosiectau. Gellid cyflawni gwaith yn y maes hwn, ond byddai angen arian ar ei gyfer. Roedd rhai rhaglenni yn gosod cynllun gweithredu nad oedd bob amser yn addas, ac nid oedd hynny bob amser yn cyflawni'r canlyniadau gorau. Roedd angen i'r cyhoedd fod yn ymwybodol o beth oedd ar gael, ond roedd safbwyntiau'r cyfranogwyr hefyd yn hanfodol i'r broses. Gallai fod yn anodd esbonio gwerth diwylliannol prosiect oherwydd roedd yn rhaid ystyried gwerth economaidd prosiectau. Dylid archwilio prosiectau o bob math i'w cynnwys yn y broses o ddatblygu adfywio cymunedol.

3.4 Nododd y Cadeirydd yr anhawster i gael data i ddangos sut yr oedd y celfyddydau a chwaraeon yn helpu adfywio o fewn y cymunedau. Roedd Rhwydwaith y Celfyddydau Gwirfoddol yn gweithio'n dda ac yn rhoi'r cyfle i bobl gymryd rhan yn y broses. Nodwyd bod llawer o'r meysydd a drafodwyd gan yr Athro Fyfe eisoes wedi'u cynnwys yn adroddiad y Pwyllgor ar Gyfraniad y celfyddydau a chwaraeon i Adfywio Cymunedol a gâi ei gyhoeddi yn y dyfodol agos.

**Eitem 4: Mesur y Loteri**

**Papur:** CWLS2 01-05(t.3)

4.1 Gofynnodd y Cadeirydd i Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor esbonio'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â Mesur y Loteri.

4.2 Esboniodd nad oedd Mesur y Loteri yn debygol o ddatblygu ymhellach cyn yr Etholiad Cyffredinol sydd ar ddod. Gallai hyn achosi problemau i Gymru gan y byddai canran benodol o'r gronfa loteri newydd yn dod i Gymru. Byddai Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn penderfynu ar y swm terfynol i'w dderbyn.

4.2 Nodwyd y papur gan aelodau, a gwnaethant y pwyntiau canlynol:

- Pryder y gellid gweld gostyngiad yn yr arian a ddaw i Gymru o'r Gronfa Loteri Newydd;
- A fyddai'r cais i gynnal y gemau Olympaidd yn Llundain yn effeithio ar yr arian a dderbynnir gan Gymru;

- Dylid trafod y mater yn fwy manwl mewn cyfarfodydd i ddod;
- Awgrym y dylid cysylltu â gweinyddiaethau datganoledig eraill er mwyn canfod sut y byddent yn mynd ati i sicrhau eu bod yn cadw eu cyfran o arian y Loteri.

4.3 Nododd y Gweinidog fod Cymru ar hyn o bryd yn derbyn mwy na'i chyfran o arian y Loteri, ac nad oedd unrhyw arwydd y byddai'r swm hwn yn gostwng. Dylid cofio mai dim ond cais y mae Llundain yn ei wneud i gynnal y gemau Olympaidd, ond ni fyddai unrhyw arian sy'n ymwneud â'r cais yn dod i Gymru.

4.4 Nododd y Cadeirydd fod hwn yn fater pwysig y dylid dychwelyd ato ar adeg addas yn yr amserlen seneddol.

**Camau Gweithredu**

- Gwasanaeth y Pwyllgorau i drefnu i bapur pellach gael ei ddarparu ar Fesur y Loteri a threfnu i'w drafod yn y dyfodol.

**Eitem 5: Y diweddaraf ynglyn â Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC)**

**Papur:** CWLS2 01-05(t.5)

5.1 Cyflwynwyd y papur gan y Gweinidog, gan amlygu'r pwyntiau canlynol:

- Byddai uno swyddogaethau Bwrdd yr Iaith Gymraeg o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei phrif-ffrydio ar draws cyfrifoldebau'r Llywodraeth.
- Ni fyddai unrhyw newid yn statws cyfreithiol Llyfrgell Genedlaethol Cymru nac Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, ond byddai'r ddau sefydliad yn chwarae eu rhan lawn i wella effeithlonrwydd.
- Roedd y sefyllfa mewn perthynas â Chyngor y Celfyddydau a'r Cyngor Chwaraeon yn fwy cymhleth gan fod y ddau yn dosbarthu arian y Loteri. Er y byddai'r cyfrifoldebau cynllunio strategaeth a pholisi yn cael eu huno o fewn Cynulliad Cymru, roedd yn bwysig nodi nad oedd hyn yn deillio o angen i adfer sefydliadau a oedd yn methu. Byddai Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio mewn partneriaeth â'r ddau sefydliad, gan barchu gwybodaeth ac arbenigedd aelodau'r ddau Gyngor. Bydd y ddau Gyngor yn parhau i chwarae rhan allweddol yn natblygiad y celfyddydau a chwaraeon.
- Pwysleisiodd y Gweinidog hefyd ei fwriad i beidio â gosod polisi celfyddydol i Gymru.

5.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Roedd canfyddiad cryf o reolaeth ganolog o arian y loteri, a phryderon y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfarwyddo gwariant Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Cyngor Chwaraeon. Dywedodd y Gweinidog y câi arweiniad ei ddarparu ar lefel strategol, gan adlewyrchu pryderon a

blaenoriaethau ehangach y Llywodraeth, er enghraifft, o ran pobl dan anfantais gymdeithasol. Cyngor y Celfyddydau a'r Cyngor Chwaraeon fyddai'n dal i fod yn gyfrifol am benderfynu ar ddyfarniadau unigol. Er gwaethaf hyn, roedd pryderon o hyd bod o leiaf y canfyddiad yn bodoli y byddai'r celfyddydau yn cael eu rheoli'n ganolog.

- Dywedodd y Gweinidog fod y Llywodraeth yn ymrwymedig i ddatblygu ei pholisi ar gyfer Cymru ddwyieithog, a bod £28 miliwn o gyllid ychwanegol wedi'i ddarparu i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflawni. Gallai trosglwyddo cyfrifoldebau i lywodraeth ganolog sicrhau gwell gwerth na chyflenwi o hyd braich.
- Roedd pryderon ynglyn â swydd arfaethedig y dyfarnydd a fyddai'n ymgymryd â swyddogaethau statudol mewn perthynas â chynlluniau Iaith Gymraeg. Bydd hyn yn cael ei roi ar sail statudol pan fydd cyfle deddfwriaethol yn codi.
- Mynegwyd pryder hefyd ynglyn â chyfranogiad y Cynulliad mewn datblygu mathau gwahanol o gelfyddyd a sut y gellid gwahanu hyn oddi wrth y cyfrifoldeb dros y chwe chorff cylch gwaith cenedlaethol. Dywedodd y Gweinidog fod y broses bresennol ar gyfer gwaith ar ddatblygu theatr, sef gwaith y comisiynwyd arbenigwr annibynnol ar ei gyfer, yn debygol o barhau yn y dyfodol; yr unig wahaniaeth oedd y byddai'r drafodaeth strategol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei chynnal yn gynharach yn y broses. Er hynny, roedd amheuon yn parhau ynglyn â chyfranogiad Llywodraeth y Cynulliad yn natblygiad y strategaeth theatr.
- Penderfynwyd ariannu chwech yn hytrach na phob un o'r 25 sefydliad cylch gwaith cenedlaethol ar sail cyllideb a graddfa; roedd rhaid tynnu llinell yn rhywle.
- Ni fyddai cynrychiolaeth ddaearyddol gyfartal ar y Bwrdd Diwylliant arfaethedig oherwydd bwriedir iddo fod yn gorff strategol yn hytrach na chorff gweithredol. Ei ddiddordebau cyntaf fyddai'r Strategaeth Chwaraeon a'r Strategaeth Ddiwylliant newydd, ynghyd ag ailddiffinio'r berthynas â Chymru'n Creu.
- Ni fyddai unrhyw newid yn rolau'r swyddogion datblygu chwaraeon.
- Ni ragwelwyd unrhyw newidiadau o ganlyniadau i ailddiffinio rolau CCNC ar gyfer Opera Cenedlaethol Cymru na Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC.
- Ymdriniwyd â materion pensiwn mewn perthynas â Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru drwy'r llythyr cylch gwaith.
- Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai cyfleoedd pellach i'r Pwyllgor graffu ar y cynigion. Hefyd awgrymwyd y byddai angen mwy o amser ar y Pwyllgor i graffu ar Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ôl iddi gymryd mwy o rôl yn y meysydd hyn.

**Eitem 6: Adroddiad y Gweinidog**

**Papur:** CWLS2 01-05(t.6)

6.1 Gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol yn ychwanegol i'r rheini a godwyd yn ei bapur:

**Cyhoeddiad Polisi Chwaraeon**

- Byddai'r Gweinidog yn gwneud cyhoeddiad pwysig dydd Llun 31 Ionawr ynglyn â

Dringo’n Uwch.

**Canolfan Mileniwm Cymru**

- Bu’r agoriad yn llwyddiant mawr, ac roedd y Ganolfan ar y trywydd cywir i gyflawni ei tharged blynyddol o werthu 350,000 o docynnau.

**Pasbortau’r Swyddfa Gartref**

- Bydd yn bosibl i gael pasbort Cymraeg cyn bo hir.

**Datganiad Cyllideb**

- Gwneir datganiad ar wariant cyfalaf y gyllideb yn ystod yr ychydig ddyddiau nesaf.

6.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Roedd y camgymeriadau sillafu ar arwyddion i Ganolfan Mileniwm Cymru yn cael eu cywiro.
- Byddai’r Gweinidog yn dosbarthu copi o’i ymateb (pan gaiff ei gyhoeddi) ynglyn â chofnodion cyhoeddus Cymru.
- Nododd y Gweinidog fod chwe ymddiriedolwr newydd wedi eu penodi i Erddi Botaneg Cenedlaethol Cymru, bod cynllun busnes newydd yn cael ei ddatblygu.
- Croesawyd y ffaith y rhoddir ystyriaeth i Faes Saethu Gynnau Aer o Safon Olympaidd.
- Holwyd ynghylch gwerth am arian y grant o £20,000 ar gyfer rhagolygon tywydd ar gyfer "teithiau cerdded y gaeaf". Dywedodd y Gweinidog fod hyn yn cyfateb i gost 2 awr o amser hedfan ar gyfer yr hofrennydd achub, felly gellid ei gyfiawnhau am resymau diogelwch yn unig.

**Eitem 7: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**Papur:** CWLS2 14-04 (min)

7.1 Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod 8 Rhagfyr 2004.

**Eitem 8: Unrhyw Fater Arall**

8.1 Cododd y Cadeirydd faterion ynglyn â’r Cod Ymarfer sy’n rheoli’r gweithdrefnau ar gyfer gwneud penodiadau cyhoeddus, a gofynnodd i aelodau’r Pwyllgor a enwebwyd i gyflawni’r dyletswyddau hynny sicrhau eu bod yn gwbl gyfarwydd â’r Cod Ymarfer.

8.2 Ar ôl peth trafodaeth, cytunwyd y byddai Aelodau’r Pwyllgor a enwebwyd a’r Gweinidog yn sicrhau eu bod yn gwbl gyfarwydd â phob elfen o’r Cod Ymarfer mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus ac y byddent yn eu cymhwyso yn ôl yr angen.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Ionawr 2005**